Cyfarfod y Cyngor
11 Medi 2024

Y Pwnc: Adolygiad o Ddosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio 2023/2024

Y Pwrpas: Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r dosbarthau pleidleisio a'r mannau pleidleisio presennol drwy ystyried

- Sylwadau a chynigion cychwynnol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)
- Y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori
- Argymhellion terfynol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

1. Cymeradwyo'r cynllun o ddosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.
2. Mae'r pŵer hwnnw i ddynodi mannau pleidleisio wedi'i ddirprwyo i Reolwr y Gwasanaethau Etholiadol. Dylid arfer pŵer o'r fath pan fydd angen penderfyniad ar fyr rhybudd, ac nid yw'n bosibl aros am benderfyniad y Cyngor.

Y rhesymau:

Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Rheoliadau Adolygu Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006 gynnal adolygiad gorfodol bob 5 mlynedd – Rhaid cynnal yr adolygiad nesaf o fewn cyfnod o16 mis sy'n dechrau ar 1 Hydref 2023

Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad NAC OES

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad OES

YR AELOD CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Cyng. Philip Hughes Trefniadaeth a'r Gweithlu

Y Gyfarwyddiaeth: Prif Weithredwr Enw Pennaeth y Gwasanaeth: Steve Murphy Awdur yr Adroddiad: Amanda Edwards	**Swydd** Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol	01267 228609 AmEdwards@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

CRYNODEB GWEITHREDOL

PWNC

Adolygiad o Ddosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio 2023/2024

Diben yr Adroddiad

O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mae'n ddyletswydd ar y cyngor i rannu ei ardal yn ddosbarthau pleidleisio ac i ddynodi man pleidleisio ar gyfer pob ardal.

Gall y diffiniadau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ddarllen yr adroddiad:

• Mae "dosbarthau pleidleisio" yn ardaloedd etholiadol daearyddol a all fod yn israniadau o wardiau ac etholaethau.
• “Mannau pleidleisio" yw'r adeiladau neu'r ardaloedd a ddynodir gan y cyngor lle mae etholwyr mewn dosbarth pleidleisio yn mynd i bleidleisio.
• “Gorsafoedd pleidleisio" yw nifer y desgiau dyroddi yn yr adeilad neu'r ardal sy'n fan pleidleisio dynodedig.

Cyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol yw dynodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth pleidleisio yn yr etholaeth seneddol oni bai bod maint neu amgylchiadau eraill y dosbarth pleidleisio yn golygu nad yw sefyllfa'r gorsafoedd pleidleisio yn effeithio'n sylweddol ar gyfleustra etholwyr.

Mae'r Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am sicrhau bod digon o orsafoedd pleidleisio a dynodi'r etholwyr i'r gorsafoedd pleidleisio hynny yn y fath fodd ag y mae'n credu sydd fwyaf cyfleus.

Cyflwynodd Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006, fel y'i diwygiwyd, ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr i adolygu eu dosbarthau pleidleisio a'u mannau pleidleisio o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

O dan adran 18C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhaid cynnal yr adolygiad gorfodol nesaf o fewn cyfnod o 16 mis rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Ionawr 2025.

Bwriad y ddeddfwriaeth oedd y byddai adolygiadau'n cael eu cwblhau erbyn mis Ionawr cyn etholiad cyffredinol seneddol y DU.

Yn ogystal, mae Comisiwn Ffiniau Cymru wedi cynnal adolygiad o ffiniau etholaethau seneddol. Mae'r Comisiwn bellach wedi cyhoeddi ei argymhellion terfynol, a gwnaed Gorchmynion ar gyfer ffiniau etholaethau seneddol newydd ym mis Tachwedd 2023.

Mae'r Gorchmynion ar gyfer etholaethau seneddol newydd wedi'u gwneud.

Amseru'r adolygiad o ddosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio:

Nid yw Adran 18C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn caniatáu i'r adolygiad ddechrau cyn 1 Hydref 2023.

Argymhellir bod yr adolygiad gorfodol o ddosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio yn dechrau ddydd Iau 12 Hydref 2023.

Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad:

Adolygiad o ddosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio 2023	
Gwaith paratoi	Dechreuwyd 24 Gorffennaf 2023
Penderfyniad gan y Cyngor sy'n darparu ar gyfer dechrau adolygiad	11 Hydref 2023
Adolygiad rhagarweiniol - gan gynnwys ymgynghoriad anffurfiol	Gorffennaf i 11 Hydref 2023
Hysbysiad ynghylch Adolygu wedi'i gyhoeddi	12 Hydref 2023
Cynigion y Cyngor wedi'u cyhoeddi	12 Hydref 2023
Dechrau ymgynghoriad ffurfiol	12 Hydref 2023
Diwedd ymgynghoriad ffurfiol	9 Tachwedd 2023
Ystyried ymatebion	Erbyn 17 Tachwedd 2023
Cyhoeddi Cofrestr Etholiadol	1 Rhagfyr 2023
Cynigion Drafft wedi'u hystyried gan y Cyngor Llawn	24 Ionawr 2024
Dechrau cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y Cynigion Terfynol	25 Ionawr 2024
Diwedd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y Cynigion Terfynol	7 Mawrth 2024
Y Cyngor Llawn yn ystyried y cynigion terfynol	2 Medi 2024

<u>Y gofynion cyfreithiol</u>
Nodir y broses ar gyfer adolygiad o ddosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio yn Atodlen A1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Mae'n rhaid i'r Cyngor:

- gyhoeddi hysbysiad ynghylch adolygu.
- ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer pob etholaeth seneddol sy'n llwyr neu'n rhannol o fewn ei ardal.
- cyhoeddi'r holl sylwadau a wnaed gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o fewn 30 diwrnod o dderbyn copi ohonynt yn swyddfa'r awdurdod lleol ac mewn o leiaf un lle amlwg yn ei ardal ac, os yw'r awdurdod yn cynnal gwefan, drwy osod copi ar wefan yr awdurdod.
- ceisio sylwadau gan unigolion y mae'n credu sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i safleoedd neu gyfleusterau ar gyfer pobl sydd â gwahanol fathau o anabledd. Rhaid i bersonau o'r fath gael cyfle i gyflwyno sylwadau a rhoi sylwadau ar y sylwadau a wnaed gan y Swyddog(ion) Canlyniadau (Gweithredol).

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, rhaid i'r cyngor roi rhesymau dros ei benderfyniadau a chyhoeddi'r canlynol:

- yr holl ohebiaeth sydd wedi'i hanfon at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn cysylltiad â'r adolygiad.
- yr holl ohebiaeth sydd wedi'i hanfon at unrhyw berson y mae'r awdurdod yn credu sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i safleoedd neu gyfleusterau ar gyfer pobl sydd â gwahanol fathau o anabledd.
- yr holl sylwadau a wnaed gan unrhyw berson mewn cysylltiad â'r adolygiad.
- cofnodion unrhyw gyfarfod a gynhaliwyd gan y Cyngor i ystyried unrhyw adolygiad i ddynodi dosbarthau pleidleisio neu fannau pleidleisio yn ei ardal o ganlyniad i'r adolygiad.
- manylion dynodi dosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio o fewn ardal yr awdurdod lleol o ganlyniad i'r adolygiad.
- manylion am y mannau lle mae canlyniadau'r adolygiad wedi'u cyhoeddi.

Adolygiad rhagarweiniol

Cynhaliodd y Gwasanaethau Etholiadol adolygiad rhagarweiniol o'r dosbarthau pleidleisio a'r mannau pleidleisio presennol yn y sir i asesu eu haddasrwydd.
Roedd hyn yn cynnwys:

- Llunio manylion y mannau pleidleisio presennol gyda chrynodeb o'u haddasrwydd
- Gwirio bod mannau pleidleisio yn parhau i fod ar gael
- Adolygu adborth gan randdeiliaid mewn etholiadau blaenorol
- Nodi adeiladau amgen posibl lle bo hynny'n briodol
- Sicrhau bod mannau pleidleisio yn gallu cefnogi gofynion y Ddeddf Etholiadau, er enghraifft bod ganddynt ddigon o le i gynnal gwiriadau Adnabod Pleidleiswyr, ac i ddarparu ar gyfer offer i gynorthwyo pleidleiswyr anabl.
- Ceisio cyngor ac arweiniad gan grwpiau anabledd lleol ac arbenigwyr awdurdodau lleol ynghylch hygyrchedd
- Paratoi cynigion y cyngor a drafftio sylwadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), gan gynnwys esboniadau ar gyfer "dim newidiadau"

Ymgynghoriad Anffurfiol

Cynhaliodd y Gwasanaethau Etholiadol ymgynghoriad anffurfiol gyda grwpiau â diddordeb i baratoi ar gyfer yr adolygiad.
Roedd hyn yn cynnwys:

- Ceisio barn sefydliadau sydd â diddordeb arbennig/arbenigedd ym maes mynediad i bobl anabl
- Ymgynghoriad anffurfiol gydag arweinwyr grwpiau/pleidiau gwleidyddol lleol
- Gwahodd sylwadau gan arolygwyr gorsafoedd pleidleisio

Ymgynghoriad cychwynnol

O fewn y cyfnod ymgynghori hwn cawsom 12 ymateb a ystyriwyd ac a helpodd i lunio'r cynigion Drafft

Ymgynghoriad Drafft

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion drafft rhwng 25 Ionawr a 7 Mawrth 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, cawsom bum ymateb a amlygir yn Atodiad B. Mae'r ymatebion a ddaeth i law wedi cael eu hystyried a'u helpu i lunio'r Cynigion Terfynol.

Gweithredu newidiadau i ffiniau seneddol
Yn ddiweddar, cynhaliodd Comisiwn Ffiniau Cymru adolygiad o ffiniau etholaethau seneddol. Mae wedi cyhoeddi ei argymhellion terfynol, a gwnaed Gorchmynion ar gyfer ffiniau etholaethau seneddol newydd ar 1 Tachwedd 2023.

Gweithredu newidiadau i ddosbarthau pleidleisio

Argymhellir bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei awdurdodi i gymryd y mesurau angenrheidiol i weithredu unrhyw ddosbarthau pleidleisio newydd neu ddiwygiedig ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r dosbarthau pleidleisio, gan sicrhau bod y gofrestr yn adlewyrchu'r ffiniau presennol a newydd lle bo'n briodol, hyd nes bod y ffiniau yn gwbl weithredol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	NAC OES

Y GOBLYGIADAU

MAE ANGEN I'R CYFARWYDDWR NEU'R PENNAETH GWASANAETH GYMERADWYO POB GOBLYGIAD

Cadarnhaf nad oes unrhyw oblygiadau eraill yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn, ar wahân i'r goblygiadau hynny y cytunwyd arnynt â'r Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaethau priodol, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod:

Llofnod: Steve Murphy Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddol debau	y Gyfraith	Cyllid	TGCh	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio	Asedau Ffisegol	Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd
DIM	**IE**	**DIM**	**DIM**	**DIM**	**DIM**	**DIM**	**DIM**

Cyfreithiol

Cyflwynodd Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006, fel y'i diwygiwyd, ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr i adolygu eu dosbarthau pleidleisio a'u mannau pleidleisio o leiaf unwaith bob pum mlynedd.
O dan adran 18C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhaid cynnal yr adolygiad gorfodol nesaf o fewn cyfnod o 16 mis rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Ionawr 2025.

Cyllid

Mae'r unig gostau a ddisgwylir o ganlyniad i gynnal yr adolygiad hwn yn ymwneud yn bennaf â hysbysebu a chopïo. Ni ddisgwylir i'r rhain fod yn sylweddol a byddant yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau presennol y Gwasanaethau Etholiadol.

Mae'r adolygiad hwn wedi creu cynigion sy'n cynnwys cael gwared ar fannau pleidleisio a fydd yn lleihau'r costau i'r awdurdod sy'n gysylltiedig ag etholiadau lleol wrth symud ymlaen.

Materion Rheoli Risg

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddynodi dosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio i gynnal etholiadau yn effeithiol. Drwy gytuno ar yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Goblygiadau Staffio

Oherwydd y gostyngiad yn nifer y gorsafoedd pleidleisio, bydd llai o staff yn cael eu recriwtio i'r Gorsafoedd Pleidleisio.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

YMGYNGORIADAU

Cadarnhaf fod yr ymgynghoriadau priodol wedi cael eu cynnal ac y manylir isod ar y canlyniadau:

Llofnod: Steve Murphy Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

(Nodwch ganlyniadau'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn erbyn y penawdau canlynol, lle maent yn berthnasol)

1. Cais Pwyllgor Craffu am ragbenderfyniad	NAC OES
Os felly, nodwch y wybodaeth ganlynol: -	
Y Pwyllgor Craffu	
Dyddiad y cafodd yr adroddiad ei ystyried:-	
Canlyniad/Argymhellion y Pwyllgor Craffu:-	

2. Yr Aelod(au) Lleol

Oes-Pob un

3.Cyngor Cymuned / Tref

Oes-Pob un

4.Partneriaid Perthnasol

Amh.

5.Cynrychiolwyr y Staff a Sefydliadau eraill

Amh.

HYSBYSWYD/YMGYNGHORWYD Â'R AELOD(AU) CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO DO	**Nodwch unrhyw sylwadau yma**

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:

Atodiad A- Argymhellion Terfynol
Atodiad B-Rhestr o Ymatebion

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael golwg arnynt

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council